



NHS  
WALES  
GIG  
CYMRU



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr**

**Iechyd a Gofal Digidol Cymru**

**Penodi Is-gadeirydd a Phum Aelod  
Annibynnol**

**Dyddiad cau: 12:00, 14 Rhagfyr 2020**

## Iechyd a Gofal Digidol Cymru

### Cynnwys

Gwneud Cais .....	3
Atodiad A .....	6
Rôl yr Is-gadeirydd a Phum Aelod Annibynnol .....	6
Atodiad B .....	11
Rôl a chyfrifoldebau Iechyd a Gofal Digidol Cymru .....	11
Atodiad C .....	15
Y broses ddethol .....	15

## Iechyd a Gofal Digidol Cymru

### Gwneud Cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad ar gyfer Is-gadeirydd a phum Aelod Annibynnol (nad yw'n swyddog) o Fwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig, Iechyd a Gofal Digidol Cymru sydd i'w sefydlu cyn bo hir. Bydd hwn yn sefydliad newydd ac uchelgeisiol a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2021. Mae Llywodraeth Cymru'n creu Iechyd a Gofal Digidol Cymru i arwain ar drawsnewid Iechyd a gofal yn ddigidol. Gwneir y gwaith hwn ar hyn o bryd gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS), sefydliad a gynhelir ar hyn o bryd gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Dyma gyfle unigryw a chyffrous i fod yn rhan o sefydliad a fydd yn gwneud gwahaniaeth i bobl Cymru, gan arwain a llunio dyfodol digidol drwy raglen feiddgar ac uchelgeisiol o integreiddio ac arloesi. Bydd sefydlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cryfhau llywodraethu ac atebolrwydd, o ran cydberthnasau â sefydliadau eraill GIG Cymru, arweinyddiaeth gryfach a gwell dealltwriaeth o newid digidol.

Bydd yn ofynnol i'r Is-gadeirydd a'r Aelodau Annibynnol chwarae rhan lawn a gweithredol yn y gwaith o lywodraethu Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Fel aelod llawn o'r bwrdd, bydd gofyn ichi gyfrannu at bennu strategaeth y sefydliad newydd hwn. Yn ogystal, bydd disgwyl ichi herio'n adeiladol, cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau gan y Bwrdd a chraffu ar berfformiad y tîm gweithredol o ran bodloni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt.

Mae'r Atodiadau amgaeedig yn rhoi manylion ynghylch rôl Aelod Annibynnol, a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau'r Awdurdod Iechyd Arbennig a'r broses ddethol. O'r chwe phenodiad bydd yn hanfodol i un fedru cyfathrebu yn y Gymraeg, a bydd y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y pump arall. Byddwch cystal â sicrhau eich bod wedi darllen yr adran ynglŷn â chymhwysedd ar dudalen 10 cyn gwneud cais.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-643606d0a1d8/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar y swydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro gyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Ar ôl cofrestru, bydd modd ichi weld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi gyflwyno ffurflen gais a lanlwytho **dwy** ddogfen atodol. Eich **datganiad personol** a'ch **CV** yw'r dogfennau hyn yn adran 'Rhesymau dros wneud cais' y ffurflen gais ar-lein.

### Datganiad Personol

Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf ym manyleb y person. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich

## lechyd a Gofal Digidol Cymru

swyddogaeth chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn hwy na **dwy** dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

Bydd Gwerthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru'n Un wrth wraidd y ffordd y bydd y lechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithredu, ac wrth ddangos eich addasrwydd yn eich datganiad personol yn erbyn y meini prawf hanfodol ar dudalen 7 dylech hefyd adlewyrchu sut y byddech:

- yn gweithio gyda phobl eraill i gyflawni amcanion cyffredin;
- yn annog eraill i feddwl yn wahanol ac i geisio ffyrdd newydd o wneud pethau;
- dysgu o lwyddiannau a chamgymeriadau a defnyddio'r profiad a'r wybodaeth sydd gennych i sicrhau canlyniadau gwell;
- yn cadw agwedd realistig a chadarnhaol at heriau, anawsterau a newid a chefnogi eraill i wneud yr un peth; ac
- yn cyfathrebu'n agored, meithrin hygyrdded a bod yn onest gyda phobl er mwyn ennill ymddiriedaeth a hyder.

Yn olaf, rhowch baragraff byr sy'n amlinellu:

- pam y gwnaethoch gais am y rôl(au);
- pa fuddion sydd gennych i'w cynnig i Fwrdd lechyd a Gofal Digidol Cymru;
- a ydych yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y gallu hanfodol i siarad Cymraeg;
- a fydddech yn agored i benodiad dwy, tair neu bedair blynedd;
- os hoffech hefyd gael eich ystyried ar gyfer rôl yr Is-gadeirydd (ceir rhagor o wybodaeth am hyn ar dudalennau 7 ac 8).

### Curriculum Vitae (CV)

Cyfyngwch eich CV i uchafswm o **dair** tudalen, gan sicrhau ei fod yn cynnwys manylion byr am eich swydd(i) presennol neu ddiweddaraf a'r dyddiadau yr oeddech yn meddiannu'r rôl(au). Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

### Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai fod gan gyrrff cyhoeddus aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas Cymru - pobl o bob cefndir - er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud gwell penderfyniadau. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywedol.

### Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith

## Iechyd a Gofal Digidol Cymru

syllweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweiliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel ofynnol ar gyfer pob cymhwysedd. Mae'n rhaid ichi hefyd feddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi a datblygu gyrfa pobl anabl. Os hoffech gael gwarant o gyfweiliad, cysylltwch â'r tîm Penodiadau Cyhoeddus drwy e-bostio [publicappointments@llyw.cymru](mailto:publicappointments@llyw.cymru).

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â Penodiadau Cyhoeddus gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

Amserlen fras

Dyddiad cau: 12:00, 14 Rhagfyr 2020

Llunio rhestr fer: Ionawr 2021

Cyfweiliadau: Ionawr/Chwefror 2021

### **Cysylltiadau:**

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus

Yr Uned Cyrff Cyhoeddus

E-bost: [PublicAppointments@llyw.cymru](mailto:PublicAppointments@llyw.cymru)

I gael rhagor o wybodaeth am rôl yr Is-gadeirydd neu Aelod Annibynnol, cysylltwch â Bob Hudson, Cadeirydd Dros Dro neu Ifan Evans, Cyfarwyddwr y Rhaglen.

Rhif ffôn: 07453 978482

E-bost: [bob.hudson@wales.nhs.uk](mailto:bob.hudson@wales.nhs.uk)

Rhif ffôn: 03000 251496

E-bost: [ifan.evans@llyw.cymru](mailto:ifan.evans@llyw.cymru)

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â [penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru](mailto:penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru)

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i [www.llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus](http://www.llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus)

### Atodiad A

#### Rôl yr Is-gadeirydd a Phum Aelod Annibynnol

##### Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Dyma gyfle cyffrous i fod yn rhan o'r sefydliad sy'n gyfrifol am wella'r swyddogaethau sydd ar gael i gefnogi gwasanaethau digidol ar draws GIG Cymru. Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal digidol o'r radd flaenaf yn cael eu darparu gan alluogi penderfyniadau effeithiol, effeithlon a mwy diogel drwy ddarparu mynediad at ddata a gwybodaeth iechyd a gofal sy'n gyfoethog o ran cynnwys ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

##### Rôl a chyfrifoldebau

Ar y cyd â'r Cadeirydd a'r Swyddogion Gweithredol, bydd Is-gadeirydd\* ac Aelodau Annibynnol y Bwrdd yn gyfrifol am:

- Sefydlu a bwrw ymlaen â nodau ac amcanion strategol lechyd a Gofal Digidol Cymru yn gyson â'i diben cyffredinol ac o fewn y fframwaith polisi ac adnoddau a bennwyd gan y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- cyfrannu at waith y Bwrdd yn seiliedig ar ei annibyniaeth, ei brofiad yn y gorfennol a'i wybodaeth, a'i allu i gymryd cam yn ôl o'r gwaith rheoli gweithredol o ddydd i ddydd;
- dadansoddi ac adolygu gwybodaeth gymhleth yn feirniadol a chyfrannu at wneud penderfyniadau cadarn, gan sicrhau bod y penderfyniadau'n agored ac yn dryloyw;
- sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol mewn perthynas â defnyddio arian cyhoeddus a deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r sefydliad;
- ei bod yn gweithredu o fewn terfynau'r awdurdod statudol ac unrhyw awdurdod dirprwyedig y cytunir â Llywodraeth Cymru, ac yn unol ag unrhyw amodau eraill sy'n ymwneud ag arian cyhoeddus
- sicrhau'i bod, wrth wneud penderfyniadau, yn cymryd i ystyriaeth y canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru;
- sicrhau ei fod yn derbyn, yn adolygu ac yn craffu'n rheolaidd ar wybodaeth ariannol am reoli lechyd a Gofal Digidol Cymru;
- sicrhau ei fod yn cael ei hysbysu'n brydlon am unrhyw bryderon ynghylch gweithgareddau lechyd a Gofal Digidol Cymru a'i fod, lle y bo'n berthnasol, yn rhoi sicrwydd cadarnhaol i'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, drwy'r Grŵp lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bod camau unioni priodol wedi'u cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon o'r fath;
- dangos safonau uchel o lywodraethu corfforaethol bob amser, gan gynnwys trwy helpu Pwyllgorau priodol i helpu'r Bwrdd i dderbyn sicrwydd ac i fynd i'r afael â risgiau ariannol a risgiau eraill;
- sicrhau diwylliant cadarnhaol a hyrwyddo gwerthoedd a safonau ymddygiad i'r sefydliad a staff; a
- gweithio'n agos gyda chyrrff y GIG, sefydliadau cyhoeddus, preifat, a thrydydd sector a sicrhau bod safbwyntiau cleifion, gofalwyr a theuluoedd yn cael eu cynnwys yn llawn er mwyn helpu i lywio, datblygu a gwella gwasanaethau.

## Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Mewn amser, bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus ddeall y busnes yn llawn a chefnogi perfformiad effeithiol y sefydliad drwy gymryd rhan lawn ynddo.

\*Yn ogystal â'r uchod, bydd yr Is-gadeirydd hefyd yn gyfrifol am y canlynol:

- darparu arweinyddiaeth gref, effeithiol a gweladwy, ar draws systemau a gwasanaethau digidol o fewn gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac anabledd dysgu. Yn fewnol drwy'r bwrdd a'i bwyllgorau, ac yn allanol drwy gysylltiadau ag amrywiol randdeiliaid a phartneriaid o fewn y gymuned ehangach
- dirprwyo ar ran y Cadeirydd ac arwain y Bwrdd yn ei absenoldeb, gan gyflawni swyddogaethau ychwanegol fel y cytunwyd gyda'r Cadeirydd;
- cymryd rhan fel aelod o Rwydwaith Is-gadeiryddion Cymru Gyfan.

### Manyleb y person

I gael eich ystyried, rhaid i chi allu dangos y rhinweddau a'r profiad canlynol:

#### **Meini Prawf Hanfodol**

Profiad o o leiaf **un** o'r canlynol:

- Profiad o'r sector iechyd a gofal;
- Dealltwriaeth eang o lwyfannau, systemau a gwasanaethau digidol;
- Arweinyddiaeth strategol;
- Llywodraethu/Cyfreithiol;
- Cynllunio strategol/Busnes;
- Cyllid/cyfrifyddu;
- Adnoddau dynol/cynllunio'r gweithlu;
- Gwaith gwella; neu,
- Cyfathrebu/marchnata.

#### *Gwybodaeth a Phrofiad:*

- dealltwriaeth o'r materion a'r blaenoriaethau sy'n debygol o fod yn bwysig i Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'r gallu i ddeall rôl a gwaith y Bwrdd;
- gallu gwneud yr aelodau gweithredol yn atebol am berfformiad, a chynnal perthynas adeiladol ar yr un pryd;
- gallu meddwl yn strategol ac arfer barn gadarn ar faterion cymhleth a sensitif;
- gallu dadansoddi a dehongli gwybodaeth fanwl;
- dealltwriaeth o sut y mae grwpiau amrywiol yn cyfrannu eu profiadau fel sgiliau a phrofiad trosglwyddadwy

\* Yn ogystal, bydd gan yr Is-gadeirydd brofiad o rôl arwain o fewn y sector preifat, y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector, gyda'r gallu i edrych ymlaen a darparu arweinyddiaeth strategol

#### *Sgiliau a Phriodoleddau Personol:*

- sgiliau cyfathrebu da a'r gallu i ymgysylltu â gweithwyr, cynrychiolwyr gweithwyr a rhanddeiliaid i helpu i lunio, datblygu a gwella gwasanaethau;
- ymrwymiad clir i ddeall a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant;

## lechyd a Gofal Digidol Cymru

- gallu dangos gwerthfawrogiad o ddwyieithrwydd a diwylliant, ac ymrwymiad i hrwyddo a phrif ffrydio'r Gymraeg.

\*Yn ogystal, bydd gan yr Is-gadeirydd:

- y gallu i fod yn eiriolwr a llysgennad effeithiol, gan feithrin gweledigaeth, ynghyd â'r gallu i ddylanwadu ar eraill;
- y gallu i hwyluso dealltwriaeth o faterion cymhleth, gan ddangos parch at farn pobl eraill
- barn gadarn, sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth wleidyddol;
- dealltwriaeth gref o lwyfannau, systemau neu wasanaethau digidol a gwybodaeth ymarferol am sut y defnyddir y rhain i alluogi newid.

### Y Gymraeg

Bydd Sgiliau Iaith Gymraeg yn hanfodol i un ymgeisydd llwyddiannus ac yn ddymunol ond nid yn rhagofyniad ar gyfer gweddill y penodiadau. Fodd bynnag, disgwylir i bob ymgeisydd ddangos empathi tuag at yr iaith, a dangos arweiniad i gryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog yn y GIG yng Nghymru. Mae lefel y sgiliau sydd ei hangen fel a ganlyn:

#### *Hanfodol*

Deall = 3 - Gallu deall sgysiau arferol sy'n gysylltiedig â gwaith

Darllen = 3 - Gallu darllen rhywfaint o ddeunydd arferol sy'n gysylltiedig â gwaith gyda chymorth e.e. geiriadur

Siarad = 4 - Gallu cyfrannu at y rhan fwyaf o sgysiau sy'n ymwneud â'r gwaith

Ysgrifennu = 3 - Gallu paratoi deunydd pob dydd sy'n ymwneud â'r gwaith yn amodol ar gael rhywun i'w wirio

#### *Dymunol*

Deall = 2 - Gallu deall sgysiau sylfaenol am bynciau bob dydd

Darllen = 2 - Gallu darllen deunydd syml ar bynciau bob dydd gyda dealltwriaeth

Siarad = 3 - Gallu cyfrannu at rai sgysiau sy'n ymwneud â'r gwaith

Ysgrifennu = 1 - Gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol ar bynciau bob dydd

### Ymrwymiad amser

Mae'r ymrwymiad amser ar gyfer y rolau hyn yn seiliedig ar o leiaf:

- Wyth (8) diwrnod y mis ar gyfer yr Is-gadeirydd, a
- Pedwar (4) diwrnod y mis ar gyfer Aelod Annibynnol,

Ond, bydd hyn yn amodol ar ofynion y sefydliad, ac yn aml mae'n fwy na'r gofyniad sylfaenol.

### Tâl

Bydd yr Is-gadeirydd yn cael tâl o £21,408 y flwyddyn a delir mewn ôl-daliadau yn fisol neu'n chwarterol, fel y cytunwyd gydag lechyd a Gofal Digidol Cymru.

Bydd yr Aelod Annibynnol yn cael tâl o £9,360 y flwyddyn a delir mewn ôl-daliadau yn fisol neu yn chwarterol, fel y cytunwyd gydag lechyd a Gofal Digidol Cymru.



## **Iechyd a Gofal Digidol Cymru**

Lle caniateir i Aelod Annibynnol gael amser i ffwrdd o'i swydd bresennol gyda thâl i gyflawni ei ddyletswyddau, ni chaiff unrhyw dâl ychwanegol am ymgymryd â rôl yr Aelod Annibynnol. Byddant yn cael eu trin yr un ffordd â chyflogeion eraill sy'n cael amser i ffwrdd gyda thâl i ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus.

### **Treuliau**

Bydd gennych hawl i gael ad-daliad, os yw'n briodol, yn erbyn derbynebaw ar gyfer costau teithio a chynhaliadaeth a fydd yn codi wrth wneud gwaith i Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Rhaid hawlio treuliau o fewn tri mis o fynd i gostau, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

Gellid hefyd talu costau gofal plant ac unigolion dibynnol eraill os cyflwynir derbynebaw, yng nghyd-destun costau ychwanegol eraill a fydd yn cael eu hysgwyo wrth wneud gwaith i Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

### **Lleoliad**

Efallai y bydd yn ofynnol i ddeiliaid y swyddi deithio i'r brif swyddfa yng Nghaerdydd a lleoliadau eraill ledled Cymru i fynychu cyfarfodydd a chyflawni dyletswyddau eraill sy'n gysylltiedig â'r rolau. Mewn ymateb i COVID-19, cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd drwy lwyfannau digidol. Lle mae hyn wedi bod yn effeithiol, mae hyn yn debygol o barhau.

### **Hyd y penodiad**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n pennu hyd y penodiad, a fydd naill ai am ddwy (2) flynedd, tair (3) blynedd neu bedair (4) blynedd i ddechrau. Er hynny, bydd hyn yn amodol ar y ffaith bod yr Is-gadeirydd yn parhau'n gymwys drwy gydol y cyfnod hwn. Gall aelodau o'r bwrdd sefyll am gyfnod o wyth (8) mlynedd ar y mwyaf gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

### **Atebolrwydd**

Penodir yr Is-gadeirydd a'r Aelodau Annibynnol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac maent yn atebol i'r Gweinidog drwy'r Cadeirydd am gyflawni eu dyletswyddau ac am eu perfformiad.

### **Pwy sy'n gymwys i wneud cais**

Bydd unigolyn yn cael ei ddiarddel o'r penodiad os bydd ef/hi:

- a. o fewn y pum (5) mlynedd blaenorol wedi'i golffarnu yn y DU, neu y tu allan i'r DU o unrhyw drosedd a fyddai, pe bai wedi'i chyflawni mewn unrhyw ran o'r DU, yn drosedd, ac yn y naill achos neu'r llall, canlyniad terfynol y trafodion oedd dedfryd (p'un a gafodd ei hatal dros dro ai peidio) am gyfnod o ddim llai na thri (3) mis heb y dewis o dalu dirwy;
- b. wedi ei wneud yn fethdalwr neu wedi gwneud cyfamod neu drefniant gyda'i gredydwr
- c. wedi cael ei ddiswyddo/diswyddo, ac eithrio pan fo swydd wedi'i dileu neu pan nad adnewyddwyd contract tymor penodol, o unrhyw swydd gyflogedig yn un o gyrff y gwasanaeth Iechyd (ar ôl cyfnod o ddwy (2) flynedd caiff person sydd wedi ei anghymhwysu o dan y ddarpariaeth hon wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru i gael gwared ar yr anghymhwysiad. Nid oes rhaid i Weinidogion Cymru dderbyn y cais hwn);
- d. yn berson y mae ei ddeiliadaeth swydd fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr corff gwasanaeth Iechyd wedi'i therfynu, ac eithrio oherwydd diswyddo, ymddiswyddiad gwirfoddol, ad-drefnu corff y gwasanaeth Iechyd, neu ddod â'r cyfnod swydd y penodwyd y person hwnnw ar ei gyfer i ben (Noder: mae'r

## Iechyd a Gofal Digidol Cymru

anghymhwysu hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw dwy (2) flynedd i ben; a/neu

- e. sydd neu wedi gweithio i'r gwasanaeth iechyd o fewn y flwyddyn flaenorol;

Dylai ymgeiswyr gofio hefyd fod aelodau o Awdurdod Iechyd Arbennig wedi'u hanghymhwysu rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwysu) 2015.

<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/1536/contents/made>

Dylech ddatgan unrhyw wybodaeth arall a allai effeithio ar eich cais yn yr adran Gwrthdaro rhwng Buddiannau o'r ffurflen gais.

Dylai'r ymgeiswyr fod yn unigolion sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd bob amser.

### **Gwrthdaro Buddiannau**

Wrth wneud cais, bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Is-gadeirydd neu Aelod Annibynnol o'r Awdurdod Iechyd Arbennig, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweiliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

### **Diwydrwydd Dyladwy**

Bydd yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sydd wedi'i sifftio'n llwyddiannus i gyfweiliad. Bydd hynny'n cynnwys ymhlith efallai pethau eraill, chwiliadau yn y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn y cyfweiliad am ffrwyth yr archwiliadau diwydrwydd dyladwy hyn.

### **Safonau mewn bywyd cyhoeddus**

Bydd disgwyl ichi arfer safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yma:

<https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies> [Mae fersiwn Gymraeg ar gael gan yr Uned Penodiadau Cyhoeddus]

### Atodiad B

#### Rôl a chyfrifoldebau Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Mae *Cymru Iachach* yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu buddsoddiad mewn Iechyd a Gofal digidol yn sylweddol. Bydd hyn yn rhan allweddol o drawsnewid ein system Iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae *Cymru Iachach* yn cydnabod yr her sylweddol o ysgogi newid digidol yn gyflym ac ar raddfa. Mae'n nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi, yn disgrifio dull 'llwyfan agored' newydd o ymdrin ag arloesi digidol, ac yn cydnabod yr angen i gryfhau trefniadau arwain a darparu cenedlaethol.

Yn ystod ymateb y GIG i COVID-19 mae'r dull o ymdrin ag Iechyd a gofal digidol wedi caniatáu iddo sicrhau mynediad parhaus at wasanaethau gofal Iechyd.

Cyn hyn comisiynodd Llywodraeth Cymru ddau adolygiad mawr o ddarpariaeth ddigidol yng Nghymru yn dilyn adroddiad Archwilio Cymru ar "[Systemau Gwybodeg yn GIG Cymru](#)" a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018 ac adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar "[Systemau Gwybodeg yn GIG Cymru](#)" a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018. Archwiliodd yr adolygiad cyntaf sut y caiff systemau digidol eu cynllunio i gydweithio ('[yr Adolygiad Pensaerniaeth Ddigidol](#)') a'r ail ar strwythurau cyflawni a threfniadau gwneud penderfyniadau ('[yr Adolygiad o Lywodraethu Gwybodeg Iechyd](#)'). Mae'r ddau adolygiad yn darparu'r cyd-destun ar gyfer newidiadau i ddull a darpariaeth gwasanaethau digidol ar draws GIG Cymru.

Ar 30 Medi 2019, [cyhoeddodd](#) y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) yn trosglwyddo o'i strwythur presennol, fel rhan o Ymddiriedolaeth Felindre, i Awdurdod Iechyd Arbennig newydd.

*“Drwy ddangos bod ein sefydliad gwasanaethau digidol cenedlaethol yn sefydliad pwrpasol, rydym yn adlewyrchu bod technoleg ddigidol yn ffordd bwysig o sicrhau newid, fel yr amlinellir yn Cymru Iachach. Bydd y newid hwn yn cryfhau trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd, o ran y berthynas â sefydliadau eraill yn GIG Cymru a thrwy fesurau arwain a goruchwylio cryfach. Gwneir hynny o dan arweiniad aelodau bwrdd a chadeirydd annibynnol sydd â phrofiad a dealltwriaeth o newid digidol.”*

Mae sefydlu'r corff newydd hefyd yn cyd-fynd â gwaith yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal ac yn ymateb iddo, a'r adroddiadau a'r argymhellion gan Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Dechreuodd yr [ymgyngoriad](#) ar swyddogaethau Awdurdod Iechyd Digidol Arbennig Cymru ar 7 Medi 2020 a bydd yn para tan 30 Tachwedd 2020.

#### Mae'r swyddogaethau sy'n destun ymgyngoriad fel a ganlyn:

1. *Datblygu a Chefnogi Ceisiadau*

Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ffynhonnell ar gyfer datblygu ceisiadau a llwyfan o fewn ecosystem o ddatblygwyr eraill ar draws Iechyd a Gofal a phartneriaid masnachol.

## lechyd a Gofal Digidol Cymru

Bydd yn rhoi cymorth wrth ddylunio, datblygu a phrofi yn erbyn y bensaernïaeth genedlaethol waeth beth fo'r sefydliad sy'n datblygu'r cais. Er enghraifft, a yw ceisiadau'n cael eu datblygu'n 'fewnol', mewn mannau eraill o fewn lechyd a Gofal neu'n cael eu caffael gan bartneriaid masnachol. Bydd y Prif Swyddog Digidol (CDO) dros lechyd a Gofal (a'u swyddogion perthnasol) yn pennu safonau pensaernïol cenedlaethol y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru.

### 2. *Dylunio, comisiynu, cynllunio a darparu Gwasanaethau Digidol*

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn helpu i ddarparu technolegau a meddalwedd newydd ar draws y Sector lechyd a Gofal yng Nghymru.

Bydd yn cefnogi'r gwaith strategol o gynllunio, caffael, rheoli contractau, cyfathrebu, newid busnes a chyflawni prosiectau a rhaglenni ym maes lechyd a Gofal yng Nghymru.

### 3. *Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu*

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau TG a seilwaith i gefnogi gwasanaethau cenedlaethol a ddefnyddir ar draws y sector lechyd a Gofal yng Nghymru.

### 4. *Rheoli Ansawdd a Chydymffurfiaeth Reoleiddiol*

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn ffynhonnell canllawiau rheoli ansawdd a chydymffurfiaeth reoleiddiol i sicrhau bod atebion a gwasanaethau digidol a ddefnyddir ar draws y Sector lechyd a Gofal yng Nghymru o'r ansawdd rheoleiddiol angenrheidiol er mwyn darparu diogelwch i gleifion a gweithwyr proffesiynol, gan sicrhau bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei thrin â'r llywodraethu priodol.

### 5. *Rheoli Gwybodaeth*

lechyd a Gofal Digidol Cymru fydd y Trydydd Parti canolog a chydabyddedig ar gyfer data a gwybodaeth lechyd a Gofal am y ddarpariaeth o wasanaethau lechyd a Gofal yng Nghymru a/neu sy'n deillio ohono.

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn sefydlu ac yn gweithredu systemau digidol ar gyfer casglu, dadansoddi a lledaenu gwybodaeth, lle mae angen yr wybodaeth honno i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau lechyd a Gofal yng Nghymru ac yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.

Bydd hyn yn cynnwys y gofyniad i gyrrff yng Nghymru ddarparu Gwasanaethau lechyd a Gofal a ariennir yn gyhoeddus i ddarparu gwybodaeth fel sy'n ofynnol yn unol â chyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru.

### 6. *Llywodraethu Gwybodaeth*

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chynnal Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth cenedlaethol sy'n cefnogi polisi Llywodraethu Gwybodaeth lechyd a Gofal yng Nghymru.

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn cefnogi'r datblygiad drwy ddefnyddio arbenigedd a phrofiad wrth ddehongli'r gyfraith, darparu cyngor, arweiniad ac asesiadau cydymffurfio.

## lechyd a Gofal Digidol Cymru

### 7. *Seiberddiogelwch*

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn darparu swyddogaeth strategol Seiberddiogelwch ar ran lechyd a Gofal yng Nghymru a bydd yn cysylltu â gwledydd cartref eraill a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Bydd Uned Seiberddiogelwch lechyd a Gofal Digidol Cymru, ochr yn ochr â Phrif Swyddog Digidol lechyd a Gofal Cymru a'i swyddogion perthnasol, yn gosod safonau gofynnol ar gyfer GIG Cymru gan gynnwys ymgymryd â'r rolau sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Cymwys ar ran Gweinidogion Cymru, yn unol â'r Gyfarwydddeb Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth.

### 8. *Cyllid a Sicrwydd Busnes*

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn sicrhau bod eu holl risgiau a'u cynilion ariannol yn cael eu cydnabod a'u rheoli.

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn rheoli ei chyllidebau dirprwyedig a bydd yn gwneud penderfyniadau yn unol â'r trefniadau manwl yn y llythyr cylch gwaith blynyddol.

### 9. *Gwasanaethau Adrodd*

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn gyfrifol am ledaenu a defnyddio data a gesglir gan systemau TG cenedlaethol.

### 10. *Gwella'r Gweithlu*

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn cynorthwyo Addysg a Gwella lechyd Cymru (HEIW) i drawsnewid, addysgu a gwella'r gweithlu digidol.

Bydd creu lechyd a Gofal Digidol Cymru yn cynrychioli dull strategol newydd o ddatblygu a chyflawni pensaernïaeth a systemau digidol y GIG yng Nghymru.

### ***Llywodraethu***

Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu lechyd a Gofal Digidol Cymru fel Awdurdod lechyd Arbennig gan ddefnyddio pwerau a bennir yn Neddf y Gwasanaeth lechyd Gwladol (Cymru) 2006. Caiff deddfwriaeth ei gosod gerbron y Senedd dros y misoedd nesaf i'n galluogi i fwrw ymlaen â recriwtio'r bwrdd annibynnol a fydd yn goruchwylio gwaith lechyd a Gofal Digidol Cymru.

Dechreuodd Llywodraeth Cymru ar y broses recriwtio ar gyfer aelodau nad ydynt yn swyddogion y Bwrdd ym mis Tachwedd 2020. Mae cynlluniau ar gyfer recriwtio'r Swyddogion Gweithredol wrthi'n cael eu cytuno. Bydd hyn yn caniatáu i drefniadau llywodraethu gael eu sefydlu cyn sefydlu'r sefydliad newydd ar 1 Ebrill 2021.

Penodwyd Bob Hudson yn Gadeirydd Dros Dro o 6 Tachwedd 2020, i lywio'r broses o drosglwyddo i lechyd a Gofal Digidol Cymru, yn amodol ar ewyllys y Senedd mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer sefydlu lechyd a Gofal Digidol Cymru.

Mae angen i ymgeiswyr fod yn ymwybodol, pe na bai'r ddeddfwriaeth a osodir gerbron y Senedd yn cael ei phasio, na fydd unrhyw benodiadau a wneir drwy'r broses recriwtio hon yn cael eu datblygu ac y bydd yr ymgyrch yn dod i ben ar unwaith.

## lechyd a Gofal Digidol Cymru

### ***Rhan o GIG Cymru***

Bydd y sefydliad newydd yn gorff newydd yng nheulu GIG Cymru, gan chwarae ei rôl ochr yn ochr â byrddau iechyd, ymddiriedolaethau ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru, yr Awdurdod Iechyd Arbennig arall ar Dîm Gweithredol GIG Cymru. Cyflogeion y GIG fydd y staff, a lle y bo'n bosibl, bydd yr holl systemau a phrosesau yn rhai GIG Cymru.

### Atodiad C

#### Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu eich cais, o safbwynt eich CV a'ch datganiad personol, i benderfynu pwy yn ei farn ef sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rolau, ac a fyddwch yn cael eich gwahodd i gyfweiliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn eich CV a'ch datganiad personol i asesu a oes gennych y sgiliau a'r profiad angenrheidiol. Byddwch cystal â sicrhau eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol a'r pwyntiau bwled y gofynnir i chi eu hateb fel rhan o'ch datganiad personol

Bydd aelodaeth y panel dethol yn dibynnu ar y rôl rydych chi'n cael eich hystyried ar ei chyfer a bydd fel a ganlyn:

Is-gadeirydd yn unig neu Is-gadeirydd/Swydd Aelod Annibynnol -

Bob Hudson, Cadeirydd Panel a Chadeirydd Dros Dro, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Maria Battle, Aelod Panel Annibynnol a Chadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Ifan Evans a Melanie Westlake, Llywodraeth Cymru.

Swydd Aelod Annibynnol yn unig –

Bob Hudson, Cadeirydd Panel a Chadeirydd Dros Dro, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Emma Wollett, Aelod Panel Annibynnol a Chadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Ifan Evans a Melanie Westlake, Llywodraeth Cymru

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech gofio, yn yr achos hwn, efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel dethol cyfan.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod yr wythnos yn dechrau 4 Ionawr 2021 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad, a fydd yn cael ei gynnal yn ystod yr wythnos yn dechrau 25 Ionawr 2021 neu 1 Chwefror 2021. Cynhelir cyfweiliadau o bell gan ddefnyddio Microsoft Teams.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf yn y datganiad personol fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Er hynny, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, byddwch chi hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweiliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad ond yn methu cadw at y dyddiad a drefnwyd ar gyfer y cyfweiliad, byddwn yn ymdrechu i'w aildrefnu. Er hynny, efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen ar gyfer penodi neu argaeledd y panel dewis.

Fe gewch e-bost trwy'r system benodi i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweiliad.

## lechyd a Gofal Digidol Cymru

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni gofynion y swydd. Gofynnir ichi baratoi cyflwyniad ar gyfer eich cyfweiliad. Nodwch na ellir defnyddio taflenni na cyflwyniad ar gyfer y cyflwyniad. Fodd bynnag, mae croeso ichi ddefnyddio cardiau i brocio'r cof.

Os hoffech gael eich cyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg, dylech roi gwybod i'r unigolyn cyswllt a enwyd yn y gwahoddiad i'r cyfweiliad.

Bydd ymgeiswyr sy'n 'benodadwy' yn ôl y panel yn cael eu hargymell i'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gallai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr addas i'w penodi cyn gwneud y penderfyniad. Os felly, bydd y Gweinidog yn cyfarfod â phob ymgeisydd ac ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu eu cynrychiolydd enwebedig. Bydd bwloch amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn cael llythyr gan y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich penodi'n Is-gadeirydd neu'n Aelod Annibynnol o lechyd a Gofal Digidol Cymru ac yn cadarnhau ar ba delerau y caiff y penodiad ei gynig. Bydd eich penodiad yn amodol ar broses gwirio geirdaon, a gynhelir gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru a gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gynhelir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'n orfodol i ymgeiswyr llwyddiannus fynychu Rhaglen Gynefino GIG Cymru ar gyfer Aelodau Annibynnol a bydd gofyn ichi fynychu'r cwrs nesaf sydd ar gael.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn cymryd cryn amser ac ymdrech i wneud cais am rolau a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

### Ymholiadau

Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â [penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru](mailto:penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru).

### Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwttais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â [penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru](mailto:penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru).